View metadata, citation and similar papers at core.ac.uk

brought to you by CORE

provided by Aberystwyth Research Portal

Aberystwyth University

Pan fo addysgwyr yn ddysgwyr – safbwyntiau ar hyder ymarferwyr ail iaith i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen

Davies, Prysor; Parry, Emily

Published in:
Gwerddon

Publication date:
2018

Citation for published version (APA):
Davies, P., & Parry, E. (2018). Pan fo addysgwyr yn ddysgwyr – safbwyntiau ar hyder ymarferwyr ail iaith i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen. *Gwerddon*, *26*, 69-87. [3].

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 09. Jul. 2020

Pan fo addysgwyr yn ddysgwyr – safbwyntiau ar hyder ymarferwyr ail iaith i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen

Prysor Mason Davies ac Emily Parry

Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth

Crynodeb: Mae 'Datblygu'r Gymraeg' yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn faes y rhoddir cryn dipyn o bwyslais arno, ac felly mae'r erthygl hon yn rhoi sylw i safbwyntiau ymarferwyr sydd yn siarad Cymraeg fel ail iaith ac sydd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen. Gwerthusir dyfnder yr heriau y teimlant y maent yn eu hwynebu wrth gyflwyno iaith nad ydynt yn gwbl hyderus ynddi, gan ystyried rhai o'r goblygiadau a amlygir gan eu safbwyntiau. Rhoddir ystyriaeth i hyder ymarferwyr yng nghyd-destun polisi a chwricwlwm Cymru ac amlygir bod yr elfen hon o addysg braidd yn anweledig yng nghyd-destun ystyriaethau datblygu'r Gymraeg, a'i bod yn effeithio ar niferoedd sylweddol o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Awgrymir bod yr agwedd hon ar y Cyfnod Sylfaen yn un sydd angen ystyriaeth a sylw buan.

Allweddeiriau: Datblygu'r Gymraeg, ail iaith, Cyfnod Sylfaen, Blynyddoedd Cynnar, dysgu Cymraeg.

Teachers as learners – perspectives on second language practitioners' confidence in supporting Welsh Language Development as a second language in the Foundation Phase

Abstract: Welsh Language Development in the Foundation Phase in Wales is an area of some significance and thus this article focuses on the perspectives of practitioners who speak Welsh as a second language and who teach Welsh as a second language in the Foundation Phase. The depth of challenge of teaching a language in which they are not entirely confident is evaluated, considering some of the implications of their perspectives. The confidence of the practitioners is considered in the context of Welsh policy and curriculum, which suggests that this phase and area of education may be rather invisible in terms of the development of Welsh, but that it impacts a significant number of Foundation Phase pupils in Wales. It is

suggested that this element of the Foundation Phase requires consideration and attention in the very near future.

Keywords: Welsh Language Development, second language, Foundation Phase, Early Years, learning Welsh.

Cyflwyniad

Mae 'Datblygu'r Gymraeg' yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn faes y rhoddir cryn dipyn o bwyslais arno. Oherwydd hynny mae'r gwaith hwn am roi sylw i'r ymarferwyr hynny sydd yn gyfrifol am gefnogi'r maes hwnnw o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Yn benodol, rhoddir sylw i safbwyntiau ymarferwyr sydd ag amrywiaeth o gefndiroedd a hyder yn y Gymraeg er mwyn datblygu darlun o'u persbectif hwy ar ddatblygu'r Gymraeg fel ail iaith i'r disgyblion, er nad y Gymraeg yw eu hiaith bob dydd. Ystyrir yr hyn a godir mewn llenyddiaeth addas ynglŷn ag amseriad addysgu ail iaith, pwysigrwydd amgylcheddau dwyieithog a chanolbwyntio ar rôl oedolion yn datblygu dwyieithrwydd, ynghyd â'r technegau mwyaf addas i wneud hyn. O gynnal ymchwil i safbwyntiau'r ymarferwyr, ceisir gwerthuso pa agweddau sydd yn peri'r heriau mwyaf iddynt yng ngoleuni'r llenyddiaeth hyn a dod i gasgliadau ynglŷn â'r anghenion a'r heriau o fewn y maes.

Adolygiad llenyddol

Un o nodau strategol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2010: t. 17) yw sicrhau gweithlu o fewn maes addysg sydd yn 'meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu', ac ynghlwm wrth hynny, mae maes dysgu 'Datblygu'r Gymraeg' yn agwedd sydd yn derbyn sylw pendant o fewn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2015: t. 38). Mae hon yn agwedd sydd yn benodol ar gyfer ysgolion a lleoliadau lle mai'r Saesneg yw'r prif gyfrwng cyfathrebu. Yma, ceir perthynas bwysig rhwng y ddau fwriad hwn. Er mwyn sicrhau datblygiad disgyblion blynyddoedd cynnar yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, mae'n rhaid iddynt gael ymarferwyr sydd yn hyderus a galluog yn yr iaith er mwyn darparu amgylchedd a phrofiadau gwerthfawr ac addas ar eu cyfer.

Er yr amcanion uchelgeisiol a nodir uchod, dywed Llywodraeth Cymru yn eu dogfen *Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* (2011), sydd yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer safonau athrawon wrth eu gwaith, taw 'meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran datblygu'r iaith Gymraeg' (2011: t. 7) sydd ei angen, yn ogystal â 'dealltwriaeth o'r disgwyliadau yn y cwricwlwm' (2011: t. 8) ynghyd â 'hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol.' (2011: t.10). Y rhain yw'r safonau a ddisgwylir gan ymarferwyr proffesiynol, a gellid awgrymu y ceir yma amwysedd ym mhendantrwydd y gosodiadau sydd yn rhoi lle i ystod eang o safonau

ieithyddol Cymraeg o fewn y gweithlu – 'meddu ar ddisgwyliadau uchel' a 'dealltwriaeth o'r disgwyliadau'. Mae'n rhaid nodi bod y disgwyliadau oddi wrth athrawon sydd newydd eu cymhwyso i addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ychydig yn fwy pendant, gyda'r argymhelliad clir 'fod y rheini sy'n cymhwyso i ddysgu plant Cyfnod Sylfaen yn addysgu â medrusrwydd ac yn annibynnol y saith maes o addysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac a gwmpesir yn y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru 2009: t. 79). Ceir disgwyliadau pendant o fedrusrwydd ac annibyniaeth i addysgu pob un o'r meysydd yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae hynny'n cynnwys maes 'Datblygu'r Gymraeg' o fewn ysgolion lle y caiff y Gymraeg ei dysgu fel ail iaith yn unig. Wrth gwrs, yr amrywiad amlwg rhwng y ddau ddisgwyliad hyn yw y bu nifer o athrawon yn addysgu ers cyn sefydlu'r safonau Athrawon Cymwysedig yn 2009 ac maent yn atebol i'r 'Safonau Proffesiynol' yn hytrach nag i'r safonau 'Dod yn Athro Cymwysedig' (2009). Ffactor arall i'w hystyried yn y cyd-destun hwn yw'r ddibyniaeth ar allu a dymuniad awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflogi staff sydd yn gymwys i addysgu'r Gymraeg, yn arbennig yn y sector lle y dysgir y Gymraeg fel ail iaith, a gall hyn fod yn ddibynnol ar nifer o ffactorau a disgwyliadau lleol gan gynnwys rhwyddineb penodi staff addas. Yn ychwanegol i hyn, penderfyniad a chyfrifoldeb yr ysgolion unigol a'u llywodraethwyr yw penodiadau staff, ac felly gallant benderfynu'n fewnol beth yw blaenoriaethau ac anghenion penodol eu hysgol. Cânt eu monitro gan yr awdurdod, y consortiwm lleol ac Estyn yn ôl eu llwyddiant i ddarparu'r cwricwlwm yn effeithiol, ond nid oes rheidrwydd arnynt i flaenoriaethu'r Gymraeg mewn penodiadau. Hwy hefyd sydd â'r awdurdod i nodi gallu disgwyliedig yr ymgeiswyr yn y Gymraeg. Amlyga hyn y posibilrwydd am amrywiaeth a gwahaniaeth yn y disgwyliadau o fewn ysgolion yn y dalgylch hwn a dalgylchoedd eraill, a gall hyn gael effaith sylweddol ar y gallu i ddarparu'r Gymraeg yn effeithiol o fewn yr ysgolion.

Yng nghyd-destun penodol yr astudiaeth hon, sef ardal yn y gogledd-ddwyrain, gwelir wrth ystadegau Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (2014/15) taw yn achos 14% (n=906) o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol dan sylw y defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu (StatsCymru 2017). Golyga hyn yr addysgir y Gymraeg fel ail iaith i 86% (n=5,613) o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol dan sylw, ac felly mae effaith hyder a gallu ymarferwyr i ddarparu addysg Gymraeg ail iaith effeithiol yn dylanwadu ar gyfleoedd mwyafrif y disgyblion. Pan ystyrir hyn yng nghyd-destun ehangach Cymru, gwelir bod 75% (n=102,163) o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen Cymru gyfan mewn amgylchedd addysgol lle y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith yn unig (StatsCymru 2017). Felly, gwelir pwysigrwydd yr agwedd hon o ddatblygu addysg Gymraeg ar lefel genedlaethol.

O ystyried cyd-destun yr awdurdod lleol dan sylw yn fanylach, gellir nodi bod pwyslais clir i'w weld ar ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2015: t. 3–5 a 2017: t. 23) a da yw gweld hyn, ond prin yw'r cyfeirio at ddatblygiad y Gymraeg mewn ysgolion lle y'i haddysgir fel ail iaith ac, o bosib felly, y gellid ystyried pwysigrwydd y flaenoriaeth a roddir i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith o fewn y cyd-destun hwn.

Cysyniadau datblygiad iaith

Ceir amrywiaeth o ddamcaniaethau ar ddatblygiad iaith sydd yn berthnasol i bwyslais yr erthygl hon. Mae'n rhaid cydnabod mai yng nghyd-destun datblygiad iaith gyntaf y trafodir y rhain yn bennaf ond mae ganddynt oblygiadau amlwg i'r cyd-destun o ddatblygu ail iaith hefyd. Mae'r anghydweld rhwng safbwyntiau natur neu fagwraeth yn cael eu hamlygu yma, gyda'r ieithydd Noam Chomsky yn awgrymu bod y gallu i ddysgu iaith yn ddyfais naturiol, fiolegol, mewn plentyn (1968) ac felly bod clywed iaith yn rhyddhau'r gallu i ddysgu'r iaith oherwydd y rhagdueddiad biolegol. Ar y llaw arall, awgryma damcaniaeth dysgu cymdeithasol (Bandura 1989 yn Doherty a Hughes 2014) fod dysgu yn digwydd drwy arsylwi, a bod plant yn datblygu eu hiaith drwy efelychu. Mae eraill (Bruner 1983, Vygotsky 1962 yn Doherty a Hughes 2014) yn mabwysiadu safbwynt mwy rhyngweithiol lle y pwysleisir dylanwad yr amgylchedd a'r ymwneud rhwng y dysgwyr ac oedolion eraill, lle y llwyddir i sgaffaldio'r dysgu ieithyddol a sicrhau bod datblygiad yn digwydd o fewn y parth datblygiad procsimol. Pa bynnag safbwynt a gefnogir yma, gwelir bod gan oedolion rôl bwysig o fewn y broses o ddatblygiad iaith, lle y gall hynny olygu rhywbeth mor sylfaenol â siarad yr iaith er mwyn i'r dysgwyr glywed a defnyddio'r iaith. Ond os cymerir safbwynt mwy rhyngweithiol at ddatblygiad iaith, yna gwelir bod gan ymarferwyr ac oedolion yn y blynyddoedd cynnar rôl hanfodol i sgaffaldio, i arwain ac i herio'r datblygiad, gan sicrhau bod y dysgwyr yn symud y tu hwnt i'r hyn sy'n gyfforddus iddynt. Os ceir gwendidau a diffygion yng ngallu neu ymagweddau ymarferwyr yn y cyd-destun hwn, yna gellid awgrymu y gallai hynny gael effaith andwyol ar ddatblygiad ieithyddol y plant sydd yn eu gofal.

Er, fel y nodwyd, bod y cysyniadau uchod yn bennaf yn cael eu cysylltu â datblygiad iaith am y tro cyntaf, gellir dadlau'n gryf bod yr un ffactorau'n hanfodol bwysig wrth ddatblygu iaith ychwanegol o fewn cyd-destun yr ysgol. Awgrymir taw dechreuad dwyieithrwydd dilyniannol a geir yma (Baker 2011) lle y dechreuir dysgu'r ail iaith mewn ysgol neu feithrinfa ar ôl dysgu'r iaith gyntaf yn y cartref. Awgryma Baker hefyd (2011) y ceir gwahaniaeth rhwng dysgu'r ail iaith drwy gaffaeliad neu drwy hyfforddiant er nad yw'r ffin rhwng y ddau syniad yn un pendant. Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru 2015) yn annog cyfuniad o'r ddau o safbwynt 'Datblygu'r Gymraeg' lle y nodir 'Dylid rhoi cyfleoedd i blant' (t. 39) a 'Dylid meithrin a hybu sgiliau' (t. 39) er, efallai, fod hyn yn achosi peth amwysedd yn y disgwyliadau a'r dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen.

Pwysigrwydd amseru datblygiad ail iaith yn y blynyddoedd cynnar

Mae gallu plentyn i ddysgu ail iaith ar ei orau pan fo plentyn o dan chwech oed (Nash 1997: t. 7) ac mae tystiolaeth yn awgrymu hefyd ei bod yn well dysgu ail iaith yn y blynyddoedd cynnar yn hytrach na phan fydd plant yn hŷn yn yr ysgol (Newport 1989). Â Phillips (2012: t. 58), ynghyd â Lightbrown a Spada (2006: t. 31), ymhellach na hyn gan ddadlau bod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer sefydlu a datblygu sgiliau a hyfedredd dysgwyr yn yr ail iaith. Mae'r cyfnod hwn felly'n hanfodol o ran datblygu a sefydlu'r iaith yn rhan

annatod o fywyd a dealltwriaeth plentyn, ac felly mae'n hanfodol hefyd fod yr hyn sy'n digwydd o fewn ein sefydliadau blynyddoedd cynnar yn addas ac yn effeithiol.

Rhan o bwysigrwydd amseru'r datblygiad hwn o iaith ychwanegol o fewn cyfnod y blynyddoedd cynnar yw'r potensial i hyn allu hyrwyddo datblygiad gwybyddol disgyblion. Awgryma Baker (2011: t. 113) fod datblygiad iaith yn fodd o hogi'r meddwl a datblygu gallu, ac mae hyn yn safbwynt sydd wedi ei atgyfnerthu gan academyddion eraill. Mae'n fodd o gryfhau sgiliau sylwi a dewis plant (Bialystok a Barac 2013) yn ogystal â bod yn fodd o gael effaith gadarnhaol ar sillafu plant yn eu hiaith gyntaf (Basseti, Murphy a Macaro 2007).

Ynghyd â'r buddiannau gwybyddol a geir o astudio iaith, dywed Bialystok (2002) fod cyflwyniad cynnar i iaith ychwanegol hefyd yn annog plant i ddatblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu iaith yn gyffredinol, a chefnogir y safbwynt hwn gan Phillips (2012) sydd yn awgrymu bod dwy iaith yn galluogi creadigrwydd a hyblygrwydd yn ogystal â'r gallu i ddatblygu ieithoedd eraill. Mae Baker (2011) yn ehangu ar hyn yn ei bwyslais ar botensial dysgu iaith ychwanegol i ddatblygu ymdeimlad o ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac mae hyn felly'n mynd law yn llaw â phwyslais Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru 2015: t. 7) o ran datblygiad y Cwricwlwm Cymreig, lle y ceir yr anogaeth i 'ddatblygu dealltwriaeth plant o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ar draws yr holl Feysydd Dysgu mewn modd integredig'. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth (2010: t. 9) hefyd yn cydnabod hyn ac yn cyhoeddi bod angen 'sicrhau bod pob dysgwr a myfyriwr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn gwlad ddwyieithog'. Mae sicrhau datblygiad effeithiol iaith ychwanegol yn ystod datblygiad cynnar plentyn yn hanfodol felly, a gwelir hefyd fod rôl yr ymarferwyr o fewn y cyd-destun hwn yn amlwg yn hanfodol.

Pwysigrwydd amgylcheddau dwyieithog

Mae pwyslais diamheuol ar bwysigrwydd yr amgylchedd ym maes y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Dywed Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru 2015: t. 3) fod yr amgylchedd cywir yn hanfodol gan ei fod 'yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i ymchwilio a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol'. Mae felly'n addas i ystyried bod yr amgylchedd dwyieithog hefyd yn hanfodol bwysig er mwyn datblygu iaith ychwanegol y disgyblion mewn modd lle y gallant ymarfer a dysgu dros eu hunain. Yn wir, â'r Fframwaith (Llywodraeth Cymru 2015: t. 38) ymlaen i bwysleisio, yn benodol ym maes 'Datblygu'r Gymraeg', fod angen i'r amgylchedd fod yn un diogel yn ogystal ag ysgogol, lle y gall disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'i harfer heb ofn methiant neu gamgymeriadau. Mae'n rhaid i'r ymarferwr felly gael hyder digonol i fedru galluogi hyn.

Yn ôl Dulay, Burt a Krashen (1982), dylai amgylchedd ieithyddol gael ei chynllunio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at yr iaith ychwanegol gan gwmpasu'r holl agweddau y mae'r dysgwr am ei glywed a'i weld mewn iaith newydd. Mae hyn felly'n gysyniad hanfodol, ac awgrymir bod amgylchedd felly yn y blynyddoedd cynnar yn cynnig

'sgaffald' (Drake 2007: t. 4) lle y gall dysgwyr gael y cyfle i fod yn rhan o ddysgu gweithredol. Mae'r safbwyntiau hyn felly, yn ogystal â safbwyntiau ymchwilwyr eraill (Hamilton et al. 2003, McCardle a Hoff 2006, Johnson a Nahmad-Williams 2009) yn argymell pwysigrwydd rôl amgylchedd dwyieithog wrth ddatblygu'r broses o ddysgu ail iaith. Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod yr arddangosfeydd dwyieithog, y deunyddiau a'r adnoddau yn sicrhau mewnbwn parhaus i ddysgu, gan alluogi ymestyniad o gyfle plentyn i weld a defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y dosbarth (Neaum Tallack 2000: t. 69, Llywodraeth Cymru 2015: t. 18). Gan fod adnoddau dwyieithog felly'n annog plant i ddewis yn annibynnol (Johnson a Nahmad-Williams 2009: t. 282) dylai'r amgylchedd gael ei gynllunio, os yw hyn yn bosibl i'r ymarferydd, mewn modd sydd yn fuddiol i blant, heb gyfyngu ar eu cyfleoedd (McCardle a Hoff 2006: t. 162).

Rôl oedolion wrth ddatblygu dwyieithrwydd

Amlyga'r llenyddiaeth bwysigrwydd rôl yr oedolion yn natblygiad dwyieithrwydd mewn plant ifanc, ond awgrymir yn gryf bod angen sgiliau a hyder addas i wneud hynny'n llwyddiannus. Awgryma Baker (2011: t. 121) bod angen cyflwyno'r iaith yn gyson ar lefel ddealladwy i'r dysgwr ail iaith, ond hefyd ar lefel sydd ychydig bach y tu hwnt i fedr presennol y dysgwr. Dywed Mhic Mhathuna (2008: t. 306) fod yn rhaid cynnig mewnbwn sydd yn addas i sicrhau datblygiad digonol. Mae cymhwysedd yr oedolyn felly i wneud hyn yn hanfodol. Mae'n rhaid i bob ymarferwr sydd am ddatblygu dwyieithrwydd mewn plant ifanc fod yn ymroddedig i gefnogi a datblygu sgiliau a chymhwysedd y disgyblion yn eu hail iaith (Llywodraeth Cymru 2015: t. 29, ESTYN 2013: t. 10) lle y dônt yn hwyluswyr yn y broses o ddysgu ail iaith (Llywodraeth Cymru 2015: t. 12). Dylent hefyd hybu datblygiad yr iaith gan godi ymwybyddiaeth o fewn y lleoliad a'r gymuned (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008: t. 29). Ond, dywed Wong-Fillmore (1991: t. 65) y gellir wynebu nifer o heriau os yw'r ymarferydd yn 'siaradwr amherffaith' o'r iaith, ac awgryma Williams a Thomas (2013: t. 121) y gall anawsterau godi lle nad yw hyder yr ymarferwyr yn ddigonol. Cadarnheir y canfyddiadau hyn mewn adroddiad gan Estyn (2013: t. 9) lle yr awgrymir bod ymarferwyr sydd yn siarad Cymraeg fel ail iaith yn cyfyngu ar eu defnydd o eiriau Cymraeg yn y dosbarth a'u bod yn methu â chynnig digon o gyfleoedd i blant i ymarfer eu Cymraeg. Nodwyd bod hyn yn digwydd gan fod nifer o'r ymarferwyr yn poeni am ynganu geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn anghywir (ESTYN 2013: t. 9).

Gall y diffyg hyder hwn, a'r cyndynrwydd felly i ddefnyddio iaith gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plant. Mae plant yn dysgu drwy glywed ac efelychu'r rhai sy'n arfer defnydd da o iaith (McLaughlin 2012: t. 81) a hefyd trwy gael cyfleoedd i glywed enghreifftiau cywiriedig o'r iaith (Cook 2001: t. 145). Mae hyn yn cyd-fynd â'r cysyniad o brosesau addysgu effeithiol lle y ceir ailadrodd llawer o gysylltiadau rhwng geiriau a'u hystyron (Baker 2011, t. 133) ac mae angen hyfedredd i fedru gwneud y cysylltiadau hyn o fewn amgylchedd ieithyddol, naturiol, y lleoliad. Mae'r elfen hon o gyfathrebu – o wrando a chlywed – yn un sy'n hanfodol i ddysgu ail iaith. Gellir cael yr elfen hon o ffynonellau

sain, o ddisgyblion eraill neu, wrth gwrs, o'r ymarferwyr (Cook 2001: t. 8). Y dull hwn yw'r dull sy'n gweddu orau i blant ifanc gan fod eu hamgylchiadau cymdeithasol yn ei gwneud yn gymharol hawdd iddynt ymwneud â siaradwyr eraill mewn modd sydd yn cefnogi dysgu'r iaith (Wong-Fillmore 1991: t. 62). Drwy ryngweithio ag eraill y mae dysgu iaith (Macrory 2001: t. 39), ac felly mae rôl yr ymarferwr yn hollbwysig i ddatblygiad ail iaith y plentyn.

Pwysigrwydd rôl oedolion wrth ddefnyddio technegau ymarferol

O ystyried hynny, felly, mae gallu ymarferwyr i ddatblygu a defnyddio technegau ymarferol er mwyn hybu ac addysgu ail iaith yn ei amlygu ei hun fel ffactor bwysig iawn. Awgryma Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008: t. 6) fod angen defnyddio rhigymau, caneuon, storïau a chwarae rôl wrth addysgu ail iaith gan eu bod yn dechnegau sydd yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu angenrheidiol yn yr iaith. Gall y technegau hyn fod yn effeithiol iawn (Wong Kwok Shing 2006: t. 279). Mae'r defnydd o rigymau a chaneuon yn rhoi cyfleoedd i blant yngan yn gywir, ailadrodd geiriau a gwneud hynny i rythm sydd yn galluogi dysgu'r iaith (Jarvis 2013: t. 49, Kenney 2005: t. 28). Maent hefyd yn medru canfod y cyswllt rhwng sain iaith a'i hystyr wrth ganu rhigymau yn yr ail iaith (Baleghizadeh a Dargahi 2010: t. 72). Yng nghyd-destun yr ymchwil hon, efallai mai'r agwedd fwyaf arwyddocaol o'r defnydd hwn o dechnegau yw ei fod yn rhoi cyd-destun mwy hygyrch i ymarferwyr ac yn eu gwneud hwy yn llai ymatalgar (Jarvis 2013: t. 51) gan gynyddu eu hyder i addysgu. Gall yr hyn sy'n strwythur a hyder i'r dysgwr hefyd fod yn strwythur a hyder i'r addysgwr.

Mae adnoddau ychwanegol hefyd erbyn hyn yn ddefnyddiol i annog a symbylu dysgu ail iaith. Mae'r defnydd o lyfrau stori (Mhic Mhathuna 2008) a rhaglenni teledu (Williams a Thomas 2013) yn yr ail iaith yn medru bod yn fuddiol gan fod y plant yn datblygu eu gwybodaeth o'r iaith. Eto, cynigia'r technegau hyn fewnbwn allanol o ran iaith sydd yn rhoi hyder a gwybodaeth ehangach a chynorthwyol i staff.

Y dechneg arall a awgrymir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2008: t. 6) yw'r defnydd o chwarae rôl sydd yn galluogi'r dysgwr i gaffael yr ail iaith mewn modd ystyrlon ac annibynnol oherwydd y cyd-destun annibynnol a geir i ymarfer yr ail iaith (Guilfoyle a Mistry 2013: t. 68, Drury a Robertson 2008: t. 2, Pim 2010: t. 13). Y fantais yma yw y caiff y plant gyfle i ddefnyddio geirfa ehangach a mynegiant hirach (Siraj-Blatchford a Clarke 2000: t. 78). Mae hyn yn cyd-blethu â'r awgrym fod angen dysgu gweithredol wrth ddysgu ail iaith (Cook 2001: t. 214) ond hwyrach mai yma y ceir y mwyaf o anhawster os yw hyder ymarferwyr yn isel, gan mai yn y cyd-destun anstrwythuredig hwn y mae angen gwybodaeth ddigonol i arwain a chywiro'r plant (Cook 2001: t. 214).

Amcan yr ymchwil – mewnwelediad i'r heriau sy'n wynebu ymarferwyr ail iaith

Mae'r ystyriaethau uchod felly'n awgrymu'n gryf fod rôl yr ymarferwyr i ddatblygu'r Gymraeg fel ail iaith yn hanfodol bwysig yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru (2010: t. 17) ac yn hanfodol bwysig i'r disgyblion sydd o dan eu gofal. Ond wedi dweud hynny, mae hyder a gallu'r ymarferwyr i gyflwyno a chefnogi'r datblygiad ieithyddol hwn yn ganolog; heb yr hyder a'r gallu creiddiol hwn, mae lle i gwestiynu llwyddiant datblygiad y Gymraeg o fewn rhai cyd-destunau Cymreig. Gan nad oes ymchwil benodol wedi ei chynnal i hyder a gallu ymarferwyr o fewn y cyd-destun penodol hwn, bwriad y gwaith felly oedd ystyried persbectif ymarferwyr sydd yn y cyd-destun hwn – rhai sydd mewn sefyllfa o orfod gweithredu maes dysgu 'Datblygu'r Gymraeg' o fewn eu sefydliadau eu hunain gan geisio gweld effaith eu safbwynt ynglŷn â'r Gymraeg ynghyd â'u hyder wrth ei defnyddio. Amcan y gwaith oedd ystyried safbwyntiau addysgwyr ar effaith hyder yn y Gymraeg ar eu gallu i addysgu, i ystyried a yw cefndir ymarferwyr yn effeithio ar eu heffeithiolrwydd, ynghyd ag i ddadansoddi eu safbwynt ar y gefnogaeth sy'n angenrheidiol ar eu cyfer a'r datblygiad yn eu gallu ieithyddol. Hanfod y gwaith hwn oedd barn a safbwynt ymarferwyr mewn ysgolion sydd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Methodoleg

Cyfranogwyr

Mabwysiadwyd dull samplu bwriadus ar gyfer y gwaith hwn gan fod angen seilio'r ymchwil ar nodweddion penodol (Cohen, Manion a Morrison 2011: t. 156). Roeddent oll yn ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a oedd yn addysgu mewn ysgolion a oedd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn yr un canllawiau wrth gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' – yr oedd hynny'n sicrhau cywirdeb y data. Er mwyn sicrhau cysondeb y sampl, roedd yn rhaid iddynt gael eu cyflogi o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Caed ystod o athrawon a chynorthwywyr yn ymateb i'r astudiaeth sydd wedi galluogi rhoi ystyriaeth i wahanol safbwyntiau ar y pwnc. Yn dilyn hyn, dewiswyd tair o'r ysgolion yn benodol lle y cafodd saith cyfranogwr eu cyfweld.

Cynllun

Defnyddiwyd dull ansoddol fel prif gynllun yr ymchwil hon gan ei fod yn ddull sydd yn tueddu i roi ffocws ar feddyliau, teimladau a phrofiadau'r cyfranogwyr ac yn fodd o ennill dealltwriaeth ddofn ac eglur o'r cysyniadau, a oedd yn addas iawn ar gyfer y gwaith (Thomas 2009: t. 83, Lapan, Quartaroli a Riemer 2011: t. 6). Defnyddiwyd cyfweliadau lled-strwythuredig a oedd yn addas i gasglu safbwyntiau'r cyfranogwyr ond hefyd yn rhoi cyfle iddynt ehangu ar eu profiadau o gefnogi ail iaith yn y blynyddoedd cynnar (Kvale 2007: t. 51, Thomas 2009: t. 164) a galluogi'r cyfwelydd i holi ymhellach er mwyn canfod atebion mwy ystyrlon (Silverman 2000: t. 36).

Dull Gweithredu

Cynhaliwyd saith cyfweliad o fewn tri sefydliad gwahanol yn unol â gofynion cyfleustra amser a lleoliad y cyfranogwyr. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar yr heriau a wynebir gan ymarferwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg ail iaith eu hunain ac yn holi ynghylch eu safbwyntiau ar gefnogaeth. Defnyddiwyd recordydd llaw i recordio cynnwys y cyfweliadau ar ôl sicrhau bod y cyfranogwyr yn fodlon â hynny, er mwyn ceisio sicrhau bod y data'n ddibynadwy (Silverman 2000: t. 149). Ond ni chafwyd y caniatâd angenrheidiol ar gyfer recordio gan ddau gyfranogwr, ac felly cofnodwyd eu cyfweliadau hwy ar ffurf nodiadau ysgrifenedig.

Cydymffurfiwyd â gofynion BERA (British Educational Research Association 2011) a gofynion moeseg drwy gynnig llythyr o wybodaeth lawn am y gwaith a oedd yn datgan anhysbysrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr a'u sefydliadau, eu hawl i dynnu yn ôl o'r gwaith ar unrhyw bwynt, ac ar sail hyn gofynnwyd iddynt oll roi eu cydsyniad. Ailgysylltwyd â'r cyfranogwyr eto er mwyn cadarnhau eu cydsyniad cyn datblygu'r erthygl hon.

Er mwyn dadansoddi'r data, trawsgrifiwyd y cyfweliadau gan ddefnyddio dadansoddi didwythol er mwyn tynnu ar y damcaniaethau a welwyd yn y llenyddiaeth. Codwyd y data o'r cyfweliadau er mwyn cymharu â'r hyn a ganfuwyd yn y llenyddiaeth (Flick 2002: t. 176). Yna, dadansoddwyd y data mewn modd anwythol er mwyn tynnu casgliadau addas o'r ymatebion penodol a gasglwyd.

Caed peth data meintiol a ddadansoddwyd yn syml, yn bennaf er mwyn canfod manylion gwahanol y cyfranogwyr a medru gwahaniaethu rhyngddynt.

Canlyniadau a thrafodaeth

Nod yr ymchwil hon oedd canfod mewnwelediad i'r heriau sy'n wynebu ymarferwyr sydd yn addysgu Cymraeg i ddisgyblion fel ail iaith yn ystod y blynyddoedd cynnar, i ystyried a yw eu cefndir a'u hyder hwy, yn eu barn hwy eu hunain, yn dylanwadu ar eu gallu i gwrdd â gofynion y Llywodraeth o ran 'Datblygu'r Gymraeg', ac os felly, pa ffactorau a allai gyfrannu at gynnydd pellach yn y darpariaethau hyn. Cyflwynir a thrafodir islaw y prif themâu a godwyd.

Gwybodaeth gyffredinol am y cyfranogwyr

Cafwyd ystod o wahanol gyfranogwyr gydag ystod o brofiadau a chefndiroedd, o safbwynt y Gymraeg, yn ymateb i'r holiadur ac yn cymryd rhan mewn cyfweliad:

	Hunanddiffiniad o'u gallu yn y Gymraeg	Rôl o fewn yr ysgol	Ym myd addysg ers:
Cyfweliad A	Cymraeg iaith gyntaf	Meithrin yn bennaf	Llai na 9 mlynedd
Cyfweliad B	Cymraeg ail iaith ond magwyd mewn amgylchedd lle y siaredid y Gymraeg	Arweinydd Cyfnod Sylfaen	Llai na 9 mlynedd
Cyfweliad C	Rhywfaint o Gymraeg ond ddim yn rhugl	Blwyddyn 1	Llai na 9 mlynedd
Cyfweliad Ch	Ail iaith ond ag un aelod o'r teulu yn siarad Cymraeg yn rhugl	Cymhorthydd Dosbarth	Dros 9 mlynedd
Cyfweliad D	Lefel A Cymraeg ond dim defnydd ers hynny	Blwyddyn 1 a 2	Dros 20 mlynedd
Cyfweliad Dd	Cymraeg ail iaith, gyda rhywfaint o allu i sgwrsio	Blwyddyn 1 a 2	Llai na 9 mlynedd
Cyfweliad E	Dealltwriaeth elfennol o fewn yr ysgol yn unig	Blwyddyn 2	Dros 9 mlynedd

Ffigwr 1: Ystod y cyfranogwyr

Gwelir o'r ystod o gyfranogwyr y ceir amrywiaeth go eang yn y profiadau a gynrychiolir o safbwynt eu diffiniad personol o'u gallu yn y Gymraeg, a gall hyn fod yn arwyddocaol hefyd wrth ystyried profiadau staff cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, ynghyd â'r newidiadau polisi o ran addysgu Cymraeg o fewn y cyfnod hwnnw. Maent oll yn cydnabod bod ganddynt rywfaint o allu yn y Gymraeg ond y ceir ymwybyddiaeth nad ydynt yn rhugl neu nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn eu bywydau bob dydd, y tu allan i gyd-destun yr ysgol. Gofynnir y cwestiwn felly, i ba raddau y gallant ddefnyddio'r iaith yn hwylus o fewn cyd-destun yr ysgol?

Cydnabu pob cyfranogwr eu bod yn cytuno â phwysigrwydd dysgu Cymraeg o fewn yr ystafell ddosbarth a chyflewyd safbwyntiau mewn perthynas â lleoliad, diwylliant, hunaniaeth, cyflogaeth a buddiannau gwybyddol i blant (Ffigwr 2).

"*It's really important for children to learn the language of the country that they grow up in*" (Cyfweliad B); *"I think it is important to keep the language going. But not just that, the Welsh heritage and Curriculum Cymreig"* (Cyfweliad C); "*They live in Wales, it's their heritage, it's their own culture*" (Cyfweliad Dd); "*I think it helps them phonetically and in lots of ways to develop language skills. It's easier to pick up another language. The earlier they learn the* better." (Cyfweliad E)

Ffigwr 2: Safbwyntiau ar bwysigrwydd dysgu Cymraeg o fewn y dosbarth.

Felly, gwelir agweddau cadarnhaol a chefnogol i ddatblygiad yr iaith Gymraeg gan y cyfranogwyr oll ac mae hyn i'w ganmol a'i annog o fewn y cyd-destun hwn. Golyga hyn ei bod yn ymddangos y ceir cefnogaeth dda i ddarparu'r Gymraeg fel ail iaith o fewn yr ysgolion a gall hyn fod yn sail gref i ddatblygiad ieithyddol y disgyblion.

Hyder cefndirol cymharol

Gwelir hefyd fod hunanasesiad y cyfranogwyr o'u hyder a'u gallu yn y Gymraeg yn awgrymu bod ganddynt (heblaw am un cyfranogwr) rywfaint o sail cefndirol yn yr iaith i fedru darparu cefnogaeth i ddysgwyr ifanc, ond nid yw'n hollol eglur beth yw hyd a lled y sail ieithyddol honno.

> I speak Welsh as a second language, I grew up in a Welsh environment so I feel very confident in delivering Welsh but I have colleagues that only speak English and I know that they don't have the same confidence. (Cyfweliad B)
>
> I'm fortunate because I've got an A-Level in Welsh but went many years without using any Welsh and so I've got very rusty. (Cyfweliad D)
>
> It is a second language and most staff members will have learnt it in school up until GCSE ... and then beyond that will have had very little use of it. (Cyfweliad Dd)

Awgrymant fod ganddynt rywfaint o hyder ond bod eu gallu wedi cilio drwy ddiffyg defnydd dros y blynyddoedd. Maent hefyd yn cydnabod bod nifer o staff eraill nad oes ganddynt yr hyder na'r cefndir:

> I know there are some staff members who do, who admittedly struggle with their own Welsh and it's a constant area of development. (Cyfweliad Dd)
>
> I have colleagues that only speak English and I know that they don't have the same confidence. (Cyfweliad B)
>
> Are there any challenges faced by practitioners when supporting Welsh Language Development in the Foundation Period?
>
> Ateb: Definitely. Someone like me who has come back from England and has only had a basic school understanding of Welsh. Especially if you've not done it for a while. The confidence of teachers is affected unless they have had sufficient training. (Cyfweliad E)

Felly, gellir gweld yr amrywiaeth o ran gallu a hyder y cyfranogwyr a'u cyd-weithwyr, a'u gallu i gynnal y ddarpariaeth 'Datblygu'r Gymraeg' yn gywir. Gellid bod wedi holi hefyd ynglŷn â lefelau gwahanol yr hyder a amlinellwyd. Er na ofynnwyd yn benodol am ehangder ieithyddol y cyfranogwyr, ceir awgrymiadau drwy'r data taw hyder a hyfedredd i addysgu yn y Cyfnod Sylfaen sydd gan nifer o staff yn hytrach na hyfedredd cyffredinol yn y Gymraeg.

Wrth ymateb i gwestiwn am yr heriau i ymarferwyr, caed awgrym ynglŷn â dyfnder lefel yr iaith a oedd yn angenrheidiol:

> a good knowledge of the language themselves really and it is only basic that we do in Key Stage One anyway you know greetings and things like that (Cyfweliad Ch)
>
> everybody has had a set of labels for things, so all of the school will have similar, running throughout, particularly in the Foundation Phase from nursery through to reception (Cyfweliad Dd)
>
> There has been a lot of teaching the staff the Welsh language because it is not natural. (Cyfweliad A)

Yr awgrym cryf yma yw taw elfennol yw'r gallu i siarad yn y Gymraeg, a bod modd addysgu 'Datblygu'r Gymraeg' gydag ychydig o hyfedredd mewn gwirionedd. Gall hyn, o bosibl, ddeillio o ofynion y safonau a osodir i athrawon, fel ag y nodwyd eisoes, lle mai 'meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran datblygu'r iaith Gymraeg' (Llywodraeth Cymru 2011: t.7) sydd ei angen. Awgrymir felly taw hyder o fewn y cyd-destun addysgiadol lleol yn unig a geir yma, yn hytrach na hyder i sgwrsio a defnyddio'r iaith yn hwylus o ddydd i ddydd. Tybed, pe byddai'r disgwyliadau'n uwch o ran 'Datblygu'r Gymraeg', a fyddai'r ymarferwyr yn teimlo yr un hyder? Nodwyd eisoes y gellir wynebu nifer o heriau os yw'r ymarferydd yn 'siaradwr amherffaith' o'r iaith (Wong-Fillmore 1991: t. 65) ac amlygir rhai o'r heriau hynny ymhellach yn y data.

Hyder a chywirdeb ieithyddol

Un o'r ffactorau sy'n awgrymu bod hyder yr ymarferwyr yn gyd-destunol a chymharol yw'r ffaith fod nifer ohonynt yn bryderus am safon eu Cymraeg a'u gallu i ynganu ac addysgu'r disgyblion yn gywir. Mynegir y safbwynt hwn gan rai sydd ag ychydig o gefndir yn y Gymraeg, ond sy'n dangos eu diffyg hyder mewn gwirionedd.

> I think sometimes it may come under confidence but it's a fear of getting something wrong and then them going home and saying what we told them in school well that's not right and maybe their grandparents speak Welsh when they're at home. (Cyfweliad Ch)
>
> So, going into a classroom and teaching it was difficult really because you're wondering, well am I saying it right and if I say it wrongly the children will say it wrongly so that's the main obstacle I think. (Cyfweliad D)
>
> Have you faced any of the challenges you have mentioned?
>
> Ateb: Yeah, definitely the vocabulary challenge, topic-related vocabulary. (Cyfweliad Dd)

Er bod y cyfranogwyr hyn yn rhai yr oedd ganddynt gymhwyster neu brofiad blaenorol yn y Gymraeg, mae'n amlwg nad oedd lefel eu hyder yn ddigon uchel i fedru cyfleu ac addysgu'r Gymraeg mewn modd addas i'r disgyblion. Gosoda hyn eu cefndir mewn cyd-destun, lle nad ydynt yn llwyr gyfforddus i'w hiaith gael ei chymharu neu ei chwestiynu gan aelodau eraill o'r gymuned – y rheini sydd â hyfedredd uwch yn yr iaith. Daw'n amlwg eu bod yn eu gweld eu hunain fel 'siaradwyr amherffaith' ac mae hyn yn codi cwestiwn am ddyfnder a'r math o iaith y maent yn medru ei haddysgu i'r disgyblion. Yn wir, codir cwestiynau am ddealltwriaeth o eirfa elfennol, sy'n awgrymu mai gafael ysgafn sydd ganddynt ar y Gymraeg. Canlyniad a all godi o hyn yw eu bod yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc lle y maent ond un cam bach ar y blaen i'r dysgwyr, lle y maent yn gorfod addysgu eu hunain wrth baratoi er mwyn cyflwyno geirfa neu batrymau newydd i'r disgyblion. Os yw hyn yn wir, yna byddai'n anodd i gyfleu'r brwdfrydedd, hyder a naturioldeb a fyddai'n ddymunol er mwyn annog a datblygu dyfnder dealltwriaeth y disgyblion, ond mae hefyd yn debygol o greu anawsterau lle y ceir dysgu mwy annibynnol neu anstrwythuredig, a lle y mae angen gallu ymateb yn llwyddiannus a chywir i anghenion a gofynion y plant (Cook 2001: t. 214). Noda Cyfweliad Dd '*play-based is where they learn more, we model what they do first and then they follow it up afterwards*', ond hefyd mae'n cydnabod '*they're only able to learn the vocabulary that we have provided for them so in a role play situation*' ac mae hyn, yn amlwg, yn ddibynnol ar ehangder geirfa'r ymarferwr.

Hyder a llwyth gwaith

Oherwydd y diffyg yn eu gwybodaeth o'r Gymraeg, noda rhai cyfranogwyr sgil effaith y cynnydd mewn llwyth gwaith oherwydd y paratoi ychwanegol sydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn sicrhau'r eirfa a'r cystrawennau addas i'w haddysgu.

> if you don't use it yourself then there is a lot of study to be done to know what you're saying and the correct, you know the correct pronunciation for us as well really. (Cyfweliad Ch)
>
> vocabulary, topic related vocabulary because it is quite time consuming in having to look up the different things for a topic. (Cyfweliad Dd)

Gan ei bod yn dod yn fwy amlwg nad ydynt yn meddu ar yr eirfa a'r cystrawennau hyn yn naturiol, mae'n rhaid iddynt eu dysgu o'r newydd neu eu hadolygu'n fanwl er mwyn sicrhau rhuglder a dealltwriaeth, a gall hyn gynyddu llwyth gwaith, nid yn unig i'r ymarferwyr unigol, ond hefyd i'r staff sy'n eu cefnogi. Awgryma yr unig gyfrannwr cyfrwng Cymraeg:

> There is a lot of preparation for second language practitioners. There has been a lot of teaching the staff the Welsh language because it is not natural. (Cyfweliad A)

Awgryma hyn yn glir iawn fod yna bwysau ychwanegol felly ar yr ymarferwyr hynny sydd yn hyfedr yn y Gymraeg i gefnogi a datblygu'r gwaith o fewn yr ysgol.

> Asking for help from each other as well. (Cyfweliad D)
> The staff that are confident are supporting the staff that are less confident. (Cyfweliad B)

Yn ychwanegol at hyn, fel ymarferwyr, mae'n ddyletswydd arnynt i gefnogi ac arwain staff eraill sydd yn y dosbarth, a gall hynny gynyddu anawsterau, yn enwedig os nad yw'r ymarferwr yn hyderus yn yr iaith. Dywed Cyfweliad E, sydd â dealltwriaeth elfennol o'r iaith yn unig:

> As a teacher, you have to support the TAs and make sure they use it effectively. [...] Need to raise their confidence

Gellir cwestiynu pa mor effeithiol y gellir gwneud hyn pan nad gan yr ymarferwr ei hun afael cryf ar yr iaith.

Hyder a chynnwys y cwricwlwm

Ynghlwm wrth yr elfen o weithgarwch ychwanegol a grëir os nad oes gan ymarferwyr hyfedredd cymharol yn y Gymraeg, nododd rhai ymarferwyr nad oeddent bob amser yn hyderus eu bod yn cyflawni'r cwricwlwm fel y dylasent. Awgrymwyd:

> It's knowing exactly what I need to cover. It depends on the school in my eyes. If you haven't got a Welsh scheme of work, that could be a barrier. There needs to be progression and continuity. (Cyfweliad C)

Nodir yma yr angen am ganllawiau a chynlluniau manwl, ac awgrymir y ceir amrywiaeth o fewn ysgolion. Mae hyn eto, o bosibl, yn ddibynnol ar allu'r staff i ddatblygu cynlluniau o'r fath, neu i dderbyn cymorth lleol er mwyn gwneud hynny. Os nad ydynt mewn sefyllfa i ddatblygu'r math hwn o gynllun, yna gellir hefyd ystyried a oes ganddynt y gallu i gyflwyno'r cynllun mewn ffordd effeithiol. Yng nghyfweliad A, dywedir:

> It's about planning the activities very carefully and giving the TAs good activities. So long as you plan for the Welsh, it fits in nicely [...]

Daw hyn, serch hynny, oddi wrth aelod o staff cyfrwng Cymraeg sydd â'r gallu i gynllunio a chyflwyno mewn modd effeithiol. Mae'n bosibl y gall hyn fod yn fwy trafferthus i'r ymarferwyr hynny nad oes ganddynt y gallu ieithyddol.

Hyder ac adnoddau angenrheidiol

Un ffactor a amlygwyd sy'n awgrymu'n glir y ceir cryn ddiffyg hyder yn achos rhai ymarferwyr yw'r defnydd a wneir o adnoddau sydd wedi eu paratoi yn bennaf ar gyfer y disgyblion.

Er y defnyddir adnoddau pwrpasol ar gyfer staff di-hyder yn y Gymraeg,

> We tend to use little cards, you know for the ones who haven't got any Welsh in their background. [...] They're like crib cards and they can have them in their pencil cases or in their pocket or on a lanyard. (Cyfweliad D)

Daeth yn amlwg fod creu amgylchedd dwyieithog yn bwysig fel canllaw a chymorth i'r staff, bron gymaint ag ydyw i'r disgyblion:

> but we have a lot of Welsh signs around as prompts to staff so we have the words that we would expect staff to use displayed. (Cyfweliad B)

Ac

> even some adults will need, will only know basic instructions some of them won't they? So, and it does encourage them to want to do more.
>
> Cwestiwn: So you think the displays also help practitioners as well as children?
>
> Ateb: Yeah yeah, especially if they're putting them up themselves. (Cyfweliad Ch)

Er bod hyn yn elfen ddiddorol a defnyddiol, mae'n uwcholeuo'r safonau a geir o fewn yr amgylcheddau hyn, lle yr arddangosir termau, geirfa a phatrymau elfennol iawn, a bod lefel hyfedredd rhai o'r staff mor isel fel bod angen iddynt ddefnyddio'r atgoffwyr hyn er mwyn llwyddo i drosglwyddo'r iaith i'r disgyblion. Er bod Jarvis (2013: 51) yn canmol technegau sy'n galluogi ymarferwyr i fod yn llai ymatalgar wrth addysgu, mae lle i gwestiynu lefel yr iaith y gellir ei haddysgu os oes angen y math hwn o atgoffwyr. Mae'r plant yn dysgu drwy glywed ac efelychu iaith (McLaughlin 2012) ond mae'r ffenomen hon yn awgrymu nad yw'r iaith y gellir ei chyflwyno yn ddigon estynedig na rhugl i sicrhau safonau datblygiadol mewn rhai sefyllfaoedd.

Casgliad

Mae'r canfyddiadau uchod yn adnabod yn eglur iawn y ceir materion pwysig yn ymwneud â hyder staff sy'n ceisio cefnogi datblygiad y Gymraeg fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen. Ceir elfen ddigon rhesymegol i hyn oherwydd os nad oes gan staff hyfedredd a hyder yn eu pwnc, bydd addysgu hynny'n effeithiol yn anodd. Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd â gwaith Wong-Fillmore (1991: t. 65) ac ESTYN (2013: t. 9) sy'n cynnig bod ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg fel ail iaith yn debygol o fod yn isel eu hyder wrth ddefnyddio a siarad yr iaith. Mae hyn yn fater o bwys mawr yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen, yn arbennig gan ei fod yn angenrheidiol i gael dysgu gweithredol ac ymarferol er mwyn dysgu ail iaith yn effeithiol (Cook 2001: t. 145). Os nad oes gan yr ymarferwyr yr hyder i fod yn sicr o'u geirfa, o'u hynganiad ac o'u patrymau iaith, nid ydynt mewn sefyllfa gref i fedru annog a chefnogi plant yn y modd mwyaf effeithiol. Mae gan hyn oblygiadau gwirioneddol i lwyddiant

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2010: t. 17). Un elfen a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r data oedd bod yr hunanystyriaeth neu'r hunanddiffiniad o hyder yn un sydd, o bosibl, yn cael ei ddylanwadu gan gyd-destun ardal neu ysgol. Mae'n ymddangos nad yw bod yn hyderus i addysgu 'Datblygu'r Gymraeg' fel ail iaith yn gyson gyda bod yn hyderus yn y Gymraeg, ac, o bosibl, mae yma le i ystyried a dadansoddi'r gwahaniaeth hyn ymhellach, ynghyd â'i effaith ar ddatblygiad disgyblion yn y Gymraeg.

Cydnabyddodd y cyfranogwyr y byddai hyfforddiant pellach yn medru lleihau'r heriau a nodwyd, yn arbennig i gefnogi ymarferwyr sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth. Awgrymir bod cynnig hyfforddiant i ymarferwyr i wella eu sgiliau Cymraeg llafar yn fodd o gael effaith gadarnhaol ar eu gallu i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' (ESTYN 2012: t. 2). Hefyd, awgrymai ymatebion fod derbyn cefnogaeth gan ymarferwyr eraill a datblygu cynlluniau ysgol-gyfan yn fodd o leihau'r heriau, ac mae'r agweddau hyn o gefnogaeth gan eraill yn gyson ag argymhellion ESTYN (2012).

Nod yr ymchwil hon oedd canfod mewnwelediad i rai heriau sy'n wynebu ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg fel ail iaith, sydd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn y blynyddoedd cynnar. Amlygwyd yn glir, yn eu barn hwy, fod eu hyder, neu ddiffyg hyder, yn cael effaith ar eu gallu i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn fater o bryder sydd angen sylw pellach. Sampl bychan yw sail yr ymchwil hon, ond os yw'n adlewyrchu safbwyntiau athrawon Cyfnod Sylfaen nad ydynt yn hyderus yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith ar draws Cymru, yna mae'n awgrymu y ceir potensial o ddiffygion posibl yn y maes hwn a allai effeithio ar dros dri chwarter disgyblion Cyfnod Sylfaen Cymru. Awgrymir bod angen ymchwil ehangach i wir fesur safbwyntiau ymarferwyr sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith i blant o'r oedran hwn. Mae natur addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, ac yn arbennig o ran 'Datblygu'r Gymraeg', yn gofyn am ryngweithio agos rhwng yr ymarferwr a'r disgybl, ac yn gofyn am hyfedredd yn yr iaith er mwyn medru cynnig y profiadau clywedol, ymarferol a chywirol i ddisgyblion na all gael y mewnbwn o unrhyw le arall.

Awgrymir bod lle am hyfforddiant a strwythurau cefnogi pellach, yn ogystal â gweledigaeth ac arweiniad mwy blaengar gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd un cyfranogwr y dylid rhoi blaenoriaeth bellach i 'Datblygu'r Gymraeg', a'i wneud yn rhan graidd o'r gofynion cwricwlaidd. Efallai y byddai hynny wedyn yn galluogi rhoi mwy o sylw a mwy o amser i'r Gymraeg mewn ysgolion a fyddai'n cryfhau'r cysyniad fod dwyieithrwydd yn fater i'w flaenoriaethu, ac yn cyfrannu'n sylweddol at weledigaeth y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cydnabyddir taw cyfyng yw'r sampl hwn ac, o bosibl, nid yw'n deg i gyffredinoli'r canfyddiadau yn rhy eang. Awgryma hyn fod lle i ymestyn yr ymchwil hon i ystod ehangach o ymarferwyr, ysgolion ac ardaloedd er mwyn sicrhau dibynadwyedd y data.

Llyfryddiaeth

Baker, C. (2011), *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism,* 5ed argraffiad (Clevedon: Multilingual Matters Ltd).

Baleghizadeh, S., a Dargahi, Z., (2010), 'The effect of nursery rhymes on EFL children's reading ability', *The NERA Journal*, 46 (1), 71–5.

British Educational Research Association (2011), *Revised Ethical Guidelines for Educational Research* (Nottingham: British Educational Research Association).

Bialystok, E. (2002), 'Acquisition of literacy in bilingual children: a framework for research', *Language Learning*, 52, 159–99.

Bialystok, E., a Barac, R. (2013), 'Cognitive Effects', yn Grosjean, F., a Li, P. (goln), *The Psycholinguistics of Bilingualism* (West Sussex: Blackwell Publishing Ltd.), tt. 195–215.

Chomsky, N. (1968), *Language and Mind* (New York: Harcourt, Brace & World).

Cohen, L., Manion, L., a Morrison, K. (2011), *Research Methods in Education*, 7fed argraffiad (Oxon: Routledge).

Cook, V. (2001), *Second Language Learning and Language Teaching*, 3ydd argraffiad (Llundain: Arnold Publishers).

Creswell, J. W. (2012), *Educational Research*, 4ydd argraffiad (Boston: Pearson Education).

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam (2015), *Welsh Education Strategic Plan*, <http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/welsh_education_strategic_plan.pdf> [Cyrchwyd: 04 Gorffennaf 2017]

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam (2017), *School Organisation Strategy*, <http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/schools/organisation/draft_school_organisation_strategy.pdf> [Cyrchwyd: 04 Gorffennaf 2017]

Doherty, J., a Hughes, M. (2014), *Child Development: Theory and Practice 0–11* (Harlow: Pearson).

Drake, J. (2007), *Planning Children's Play and Learning in the Foundation Stage* (Oxon: Routledge).

Drury, R., a Robertson, L. (2008), 'The importance of play for cultural and language learning', <https://www.naldic.org.uk/Resources/NALDIC/Initial%20Teacher%20Education/Documents/Play1.pdf> [Cyrchwyd: 27 Mai 2016].

Dulay, H., Burt, M., a Krashen, S. (1982), *Language Two* (Llundain: Oxford University Press).

Estyn (2012), *Best Practice: Plascrug CP School, Ceredigion* (Caerdydd: ESTYN).

Estyn (2013), *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen* (Caerdydd: ESTYN).

Flick, U. (2002), *An Introduction to Qualitative Research* (Llundain: SAGE Publications Ltd).

Guilfoyle, N., a Mistry, M. (2013), 'How effective is role play in supporting speaking and listening for pupils with English as an additional language in the Foundation Stage?', *Education 3–13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, 41 (1), 63–70.

Hamilton, C. et al. (2003), *Professional Workbook: Principles and Practice in the Foundation Stage* (Exeter: Learning Matters Ltd.).

Jarvis, S. (2013), 'How effective is it to teach a foreign language in the Foundation Stage through songs and rhymes?', *Education 3–13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, 41 (1), 47–54.

Johnston, J., a Nahmad-Williams, L. (2009), *Early Childhood Studies* (Essex: Pearson Education Limited).

Kenney, S. (2005), 'Nursery Rhymes: Foundations for Learning', *General Music Today*, 19 (1), 28–31.

Kvale, S. (2007), *Doing Interviews* (Llundain: SAGE Publications Ltd).

Lapan, S., Quartaroli, M., a Riemer, F. (2011), *Qualitative Research* (San Francisco: Jossey-Bass).

Lightbrown, P., a Spada, N. (2006), *How languages are learned* (Oxford: University Press).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Addysgeg Dysgu ac Addysgu* (Caerdydd: APADGOS).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: APADGOS).

Llywodraeth Cymru (2011), *Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* (Caerdydd: Adran Addysg a Sgiliau).

Llywodraeth Cymru (2015), *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (Caerdydd: Adran Addysg a Sgiliau).

Macrory, G. (2001), 'Language Development: What do early years practitioners need to know?' *Early Years: An International Research Journal*, 21 (1), 33–40.

McCardle, P., a Hoff, E. (2006), *Childhood Bilingualism: Research on Infancy through School Age* (Clevedon: Multilingual Matters Ltd.).

McLaughlin, B. (2012), *Second-Language Acquisition in Childhood Volume 2: School-Age Children*, 2il argraffiad (East Sussex: Psychology Press).

Mhic Mhathuna, M. (2008), 'Supporting children's participation in second language stories in an Irish-language preschool', *Early Years: An International Research Journal*, 28 (3), 299–309.

Nash, J. M. (1997), 'Fertile Minds', *Time*, 149 (5), 1–8.

Neaum, S., a Tallack, J. (2000), *Good Practice in Implementing the Pre-School Curriculum*, 2il argraffiad (Cheltenham: Stanley Thornes Publishers Ltd).

Phillips, H. (2012), 'The Foundation Phase', *The Student Researcher*, 2 (1), 53–67.

Pim, C. (2010), *How to support children learning English as an additional language* (Cheshire: LDA).

Silverman, D. (2000), *Doing Qualitative Research: A Practical Handbook* (Llundain: SAGE Publications).

Siraj-Blatchford, J., a Clarke, P. (2000), *Supporting identity, diversity and language in the early years* (Buckingham: Open University Press).

StatsCymru (2017) <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilsinclassesprimarymiddlesecondary-by-laregion-welshcategory> [Cyrchwyd: 04 Gorffennaf 2017].

Thomas, G. (2009), *How to do your Research Project* (Llundain: SAGE Publications).

Williams, N., a Thomas, E. (2013), 'Increasing Children's Exposure to the Welsh Language in English Language Schools and Communities: The Case of Welsh in Wales', International Conference on Minority Languages XIV, United Nationals Educational, Scientific and Cultural Organisation (UNESCO), <http://icml14.uni-graz.at/> [Cyrchwyd: 4 Rhagfyr 2013].

Wong Kwok Shing, R. (2006), 'Enhancing English among second language learners: the pre-school years', *Early Years: An International Research Journal*, 26 (3), 279–93.

Wong-Fillmore, L. (1991), 'Second-language learning in children: a model of language learning in social context', yn Bialystok, E. (gol.), *Language Processing in Bilingual Children* (Cambridge: Press Syndicate of the University of Cambridge), tt. 49–69.